BWLETIN DIOGELU

Mai 2025

RYDYM YN FALCH O GYFLWYNO EIN BWLETIN DIOGELU. ADNODD PWRPASOL A FYDD YN RHOI DIWEDDARIADAU PWYSIG I CHI, YN AMLYGU RISGIAU POSIB, AC YN AMLINELLU'R GWEITHDREFNAU SYDD GENNYM I FYND I'R AFAEL AG UNRHYW BRYDERON.

BYDDWN HEFYD YN RHANNU ADNODDAU GWERTHFAWR, CYFLEOEDD HYFFORDDI, A DIGWYDDIADAU SY'N HYBU YMWYBYDDIAETH AC ADDYSG AR FATERION DIOGELU.

RYDYM YN EICH ANNOG I YMGYSYLLTU Â'R BWLETIN HWN YN WEITHREDOL AC I ESTYN ALLAN GYDAG UNRHYW GWESTIYNAU NEU BRYDERON A ALLAI FOD GENNYCH.

TOP TIPS



BETH YW DIOGELU?

Mae Diogelu yn Ysgol Dewi Sant yn cyfeirio at arferion sydd gennym ar waith i amddiffyn ein dysgwyr rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'n ymwneud â sicrhau diogelwch a lles pob plentyn yn ein gofal, hybu eu hiechyd corfforol ac emosiynol, a chreu amgylchedd cefnogol lle gallant ffynnu.

Atal: Gweithredu strategaethau i leihau risgiau a sicrhau ysgol, safle ysgol ac amgylchedd cartref diogel.

Diogelu: Ymateb yn brydlon ac yn effeithiol i unrhyw bryderon ynghylch diogelwch plentyn.

Grymuso: Annog myfyrwyr i siarad am eu teimladau a'u profiadau.

Cydweithio: Gweithio gyda rhieni, gofalwyr ac asiantaethau allanol i gefnogi ein myfyrwyr.

MAE EIN TÎM DIOGELU BOB AMSER AR GAEL I DRAFOD UNRHYW BRYDERON SYDD GENNYCH.

Dyma ein Swyddogion Diogelu Dynodedig:



Mrs Evans
Pennaeth



Mrs E Williams
Dirprwy bennaeth



Mrs D Williams
Arweinydd CA2



Miss Davies
Arweinydd Cyfnod Sylfaen



Mrs Sioned Davies
Llywodraethwr